

# **Arolygiadau â Phwyslais Penodol o Ganolfannau Brechu Torfol (Dirybudd)**

Canolfan yr Halliwell a Chanolfan  
Aberteifi, Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda

Dyddiad arolygu: 08 – 09 Mawrth  
2021

Dyddiad cyhoeddi: 27 Mai 2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhydycar**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [agic@gov.wales](mailto:agic@gov.wales)**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

|    |                                                                            |    |
|----|----------------------------------------------------------------------------|----|
| 1. | Yr hyn a wnaethom .....                                                    | 5  |
| 2. | Crynodeb o'n gwiriad ansawdd .....                                         | 6  |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym.....                                                | 8  |
|    | Ansawdd profiad y claf .....                                               | 9  |
|    | Darparu gofal diogel ac effeithiol .....                                   | 11 |
|    | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .....                                  | 17 |
| 4. | Beth nesaf? .....                                                          | 20 |
| 5. | Sut rydym yn arolygu canolfannau brechu torfol .....                       | 22 |
|    | Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad | 23 |
|    | Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....                               | 24 |
|    | Atodiad C – Cynllun gwella.....                                            | 28 |

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiadau â phwyslais penodol o ddwy ganolfan brechu torfol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 08 Mawrth 2021 a 09 Mawrth 2021. Ymwelwyd â'r canolfannau canlynol:

- Canolfan Brechu Torfol yr Halliwell, Prifysgol Cymru, Y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 3EP
- Canolfan Brechu Torfol Aberteifi, Canolfan Hamdden Aberteifi, Park Place, Aberteifi, SA43 1AB.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiadau â phwyslais penodol yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac adolygwr cymheiriaid clinigol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau roedd y gwasanaethau yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau â phwyslais penodol o ganolfannau brechu torfol yn Adran 5.

## 2. Crynodeb o'n gwiriad ansawdd

Roedd yn amlwg bod y bwrdd iechyd wedi gweithio'n galed ac yn gyflym i ddarparu lleoliadau dros dro a digon o gapasiti er mwyn cyflawni'r rhaglen frechu.

Er bod y safleoedd y gwnaethom ymweld â nhw yn unigryw, cawsom sicrwydd bod trefniadau priodol ar waith i'w galluogi i weithredu fel canolfannau brechu torfol.

Rhoddodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC adborth cadarnhaol iawn ar eu profiadau yn y canolfannau.

Fodd bynnag, bu'n rhaid i ni ofyn am rai camau unioni brys yn ystod ein hymweliadau, a gwelsom fod lle i wella'r trefniadau llywodraethu sy'n ategu'r broses o barhau i gyflawni'r rhaglen yn ddiogel.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y gwirfoddolwyr a'r staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar a pharchus.
- Roedd modd cadw digon o bellter cymdeithasol yn y ddwy ganolfan, ac roedd y llif o gleifion yn effeithlon ac yn amserol yn y canolfannau.
- Roedd arferion diogel ar waith ar gyfer storio brechlyn ailansoddedig ac olrhain y brechlyn.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ystyried a ddylid asesu'r cleifion i weld a oes ganddynt symptomau COVID-19 cyn caniatáu iddynt ddod i mewn i'r canolfannau
- Dylid adolygu'r trefniadau preifatrwydd yn y man brechu er mwyn parhau i ddarparu gofal ag urddas
- Dylid adolygu'r gweithdrefnau gwacáu pe bai argyfwng a gwella ymwybyddiaeth y staff ohonynt
- Adolygu amrywynnau mewn cyfarpar dadebru
- Monitro'r ardal aros i gleifion ar ôl iddynt gael eu brechu

- Monitro ymwybyddiaeth y staff o'r Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion a'r llwybr archwilio a lofnodir
- Atgoffa'r staff i gadw at bolisi gwisg y bwrdd iechyd
- Adolygu'r gweithgareddau archwilio sy'n cael eu cynnal i gadw'r cleifion yn ddiogel
- Sicrhau bod gweithdrefnau safonol y ddwy ganolfan yn disgrifio'r prosesau y cytunwyd arnynt yn gywir ar gyfer pob canolfan
- Sicrhau bod brechwyr wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol er mwyn bod yn gymwys i roi brechiadau i gleifion.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, mae'r bwrdd iechyd wedi gweithio'n gyflym i gynllunio a chyflawni rhaglen brechu torfol yn y rhanbarth i'r grwpiau blaenoriaeth a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Nodwyd nifer o fodelau cyflawni ar gyfer rhoi brechiadau, gan gynnwys timau symudol yn y gymuned, defnyddio meddygfeydd teulu a throi adeiladau'n ganolfannau brechu torfol.

Tua adeg yr arolygiadau â phwyslais penodol, roedd y saith canolfan brechu torfol a oedd yn weithredol wedi rhoi tua 150,000 o frechiadau. Roedd y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw yn rhoi ail ddos o frechlyn Pfizer-BioNTech i'r cleifion.



## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom ystyried a oedd y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch, ac yn cael gwybodaeth amserol a hygyrch.*

Gwnaethom ofyn i gleifion a oedd wedi cael eu brechiadau yn y canolfannau brechu torfol gwblhau arolwg ar-lein am eu profiadau. Roedd posteri yn y canolfannau ac ar sianeli cyfryngau cymdeithasol AGIC yn hyrwyddo'r arolwg. Cwblhaodd cyfanswm o 33 o gleifion yr arolwg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

At ei gilydd, roedd yr adborth gan y cleifion yn gadarnhaol iawn, a nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod wedi cael profiad rhagorol. Dywedodd yr ymatebwyr wrthym fod y bwrdd iechyd wedi cyfathrebu'n glir â nhw cyn yr apwyntiad.

Roedd pob un o'r cleifion, fwy neu lai, o'r farn eu bod wedi gallu cynnal eu hurddas a'u preifatrwydd yn ystod eu hapwyntiad, a dywedodd pob un o'r cleifion ond dau fod y cyfarwyddiadau ôl-ofal wedi'u hegluro iddynt yn ystod yr apwyntiad. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym hefyd fod trefniadau atal a rheoli heintiau wedi'u dilyn yn dda lle y bo'n briodol, drwy gadw pellter cymdeithasol a dilyn mesurau hylendid dwylo priodol. At hyn, dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y canolfannau'n lân ac yn daclus.

## Gofal ag urddas

Gwelsom y gwirfoddolwyr a'r staff clinigol yn siarad â'r cleifion mewn modd cyfeillgar a pharchus bob amser yn ystod y ddau arolygiad â phwyslais penodol. Yn y ddwy ganolfan, roedd y cleifion yn eistedd mewn ardal aros fawr cyn i'r staff eu galw i gael eu brechu.

Gwnaethom ystyried sut y byddai amgylchedd y ddwy ganolfan yn galluogi cleifion sy'n cael eu brechu i gael gofal preifat ag urddas. Er y cyrhaeddwyd y safonau uchaf posibl o ran urddas a phreifatrwydd, yng nghanolfan Aberteifi gwelsom aelod o'r tîm gweinyddol yn y ciwbicl brechu ar un achlysur. Fodd bynnag, ni chafodd yr aelod hwn o'r staff ei gyflwyno i'r claf ac ni ofynnwyd i'r claf chwaith a oedd yn fodlon iddo fod yn bresennol yn ystod y brechiad.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o bwy sy'n bresennol ar adeg cael y brechiad a gofyn am eu cydsyniad i barhau.

## Gwybodaeth i Gleifion

Gwelsom fod y staff yn rhoi gwybod i'r cleifion beth i'w wneud ar bob cam o'u taith drwy'r canolfannau, a oedd yn golygu bod y llif o gleifion yn effeithlon ac yn amserol yn y canolfannau.

Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau cyfieithu ar gael i gleifion a oedd yn dymuno cyfathrebu mewn iaith heblaw Cymraeg neu Saesneg. Gwelsom fod y cleifion yn cael cerdyn brechu a oedd yn dangos eu henw a dyddiad eu brechiadau. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn cael taflenni gwybodaeth ar ôl eu brechiad cyntaf a oedd yn rhoi gwybod iddynt am sgil-ffeithiau posibl a phryd i ofyn am help pe bai angen. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth o'r fath ar gael, lle y bo angen, i gleifion nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Os nad yw'r claf yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried a oes gwybodaeth ar gael yn newis iaith y claf os gofynnir amdani.

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae'r canolfannau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yn amlwg bod llawer iawn o waith cynllunio a pharatoi wedi'i wneud i drawsnewid y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw, gan sicrhau eu bod yn addas i'r staff a'r cleifion. Gwelsom fod y canolfannau'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda, eu bod yn lân, a'u bod wedi'u goleuo a'u hawyru'n briodol. Roeddent hefyd yn drefnus iawn, gyda chyflenwad dda o nwyddau traul meddygol.

Gwnaethom ystyried y mesurau diogelwch a oedd ar waith yn y ddwy ganolfan a gwelsom eu bod yn sicrhau diogelwch y staff, y cleifion a'r cyflenwadau o'r brechlyn.

Gwnaethom ystyried y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff yn y ddwy ganolfan. Gwelsom ddrysau tân mewnol yn y ddwy ganolfan yn cael eu cadw ar agor. Nid oedd hyn yn cyd-fynd â chanllawiau diogelwch tân arferol sy'n nodi na ellir cadw drysau ar agor oni bai y defnyddir dyfais ddal sy'n rhyddhau'n awtomatig a ddylunnir ac a osodir yn benodol i gau'r drysau pe bai tân.

Yn ystod ein trafodaethau â'r staff yn y ddwy ganolfan, gwnaethom nodi nad oedd rhai o'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a oedd ar waith i wacáu'r safle'n ddiogel. Gwelsom hefyd nad oedd cynlluniau gwacáu ar waith yn y naill ganolfan na'r llall.

Ni allem felly fod yn sicr y byddai'r cleifion a'r staff yn ddiogel pe bai argyfwng yn y naill ganolfan neu'r llall.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r materion uchod o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. O ganlyniad i hyn, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gwnaethom nodi bod unrhyw hylifau neu gynhyrchion sy'n niweidiol i iechyd yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn cadw'r cleifion yn ddiogel.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol, dywedodd y staff yn y ddwy ganolfan wrthym nad ydynt yn asesu cleifion i weld a oes ganddynt symptomau COVID-19 cyn caniatáu iddynt ddod i mewn. Mae hyn yn cynyddu'r risg o ledaenu'r haint drwy ganiatáu i gleifion â COVID-19 ddod i mewn i'r canolfannau o bosibl. Fodd bynnag, roedd yn galonogol gweld bod y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel drwy gamau i hyrwyddo cadw pellter cymdeithasol a bodloni'r gofyniad i wisgo masgiau neu orchuddion wyneb yn yr unedau, oni bai bod unigolion wedi'u heithrio rhag gwneud hynny.

Gwelsom fod y staff clinigol yn gwisgo masgiau ac yn diheintio eu dwylo rhwng gweld cleifion. Roedd cyfleusterau golchi dwylo ar wahân ar gael i'r staff yng Nghanolfan Aberteifi, ond ni welsom unrhyw un yn eu defnyddio yn ystod ein harolygiad â phwyslais penodol. Yng Nghanolfan yr Halliwell, roedd yn rhaid i'r staff ddefnyddio'r sinciau yn y toiledau i olchi eu dwylo, ac agor drysau â llaw er mwyn dychwelyd i'w man brechu. Mae defnyddio llawer o fannau cyffwrdd yn cynyddu'r risg o drosglwyddo'r haint, felly mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfleusterau golchi dwylo yn y ddwy ganolfan brechu torfol er mwyn sicrhau bod modd cadw dwylo'n lân.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol, fel feisorau a ffedogau, ar gael ac yn cael ei ddefnyddio'n briodol gan y staff. Gwelsom fod canllawiau priodol ar fesurau atal a rheoli heintiau wedi'u harddangos ar gyfer y staff ar y ddau safle. Fodd bynnag, gwelwyd aelodau o'r staff yn gwisgo crysau llewys hir o dan eu gwisg, nad oedd yn cydymffurfio â pholisi'r bwrdd iechyd o fod yn Noeth o dan y Penelin<sup>1</sup>.

Gwnaethom hefyd ystyried y mesurau glanhau a oedd ar waith yn y canolfannau a dywedwyd wrthym fod glanhawr ar y safle drwy'r dydd. Roedd yn gyfrifol am lanhau'r cyfleusterau'n gyffredinol, a hefyd lanhau a diheintio'r mannau cyffwrdd yn rheolaidd. Hefyd, gwelsom y staff yn mynd ati i lanhau ciwbiclau a chadeiriau brechu, a gwelwyd bod hyn i safon uchel. Fodd bynnag, yn y ddwy ganolfan, nodwyd gennym fod gofyn i'r cleifion lanhau eu cadair eu hunain cyn ac ar ôl eistedd ynddi. Gwelsom ddau glaf yn gadael heb wneud hyn, sy'n peri risg i fesurau atal a rheoli heintiau a diogelwch cleifion.

Roedd digon o gynhyrchion glanhau ar gael i gadw pob ardal yn lân, a nodwyd bod y gwaith o wahanu a gwaredu gwastraff yn cael ei wneud yn unol â chanllawiau'r bwrdd iechyd.

Dywedwyd wrthym nad oedd gweithgareddau archwilio'n cael eu cynnal yn y canolfannau. Roedd hyn yn cynnwys archwiliadau clinigol fel atal a rheoli heintiau a hylendid dwylo, ac archwiliadau amgylcheddol. Mae'r rhain yn rhan hanfodol o'r trefniadau llywodraethu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau gofynnol a chadw'r cleifion yn ddiogel.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynglŷn â'r materion uchod o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Rhoddir manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau. Dywedodd yr uwch-aelodau o staff wrthym hefyd fod cymorth ar gael gan yr arweinwyr clinigol yn ystod pob sifft, yn ogystal ag arweinydd atal a rheoli heintiau'r bwrdd iechyd pe bai angen.

Roedd hefyd yn galonogol clywed bod pob aelod o'r staff yn y canolfannau wedi cael eu brechlyn COVID-19, a bod gofyn i'r staff roi gwybod i'r uwch-reolwyr ar unwaith os byddent yn profi unrhyw symptomau.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Caiff y cleifion eu hasesu i weld a oes ganddynt arwyddion neu symptomau COVID-19 er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r haint
- Caiff y cyfleusterau hylendid dwylo eu hadolygu ym mhob canolfan er mwyn sicrhau bod mesurau hylendid dwylo effeithiol ar waith
- Caiff y staff eu hatgoffa o'r polisi gwisg a chaiff cydymffurfiaeth ei monitro drwy archwiliadau rheolaidd
- Caiff y broses o lanhau'r cadeiriau ei hadolygu er mwyn sicrhau y cedwir at fesurau atal a rheoli heintiau bob amser.

#### Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom ystyried a allai'r brechlyn gael ei roi i'r cleifion yn ddiogel ac mewn ffordd amserol. Gwelsom, yn y ddwy ganolfan, fod cyflenwadau digonol o Pfizer-BioNTech i frechu'r holl gleifion a oedd ag apwyntiad. Cawsom gopi o bolisi gweithredu safonol Rheoli Meddyginiaethau Brechlyn COVID-19 a'r Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion ar gyfer rhoi'r brechlynnau. Roedd y ddwy ddogfen yn darparu'r canllawiau a'r fframwaith i sicrhau bod y bwrdd iechyd a'r staff sy'n rhoi'r brechlyn yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol a deddfwriaethol sy'n

llywodraethu'r defnydd o'r brechlynnau. Hefyd, roedd y dogfennau hyn wedi'u hategu gan amrywiaeth o weithdrefnau safonol eraill yn ymwneud â dosbarthu, storio, paratoi a rhoi'r brechlyn yn y canolfannau. Gwnaethom nodi, fodd bynnag, nad oedd pob aelod o'r staff a oedd yn rhoi'r brechlynnau wedi llofnodi'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion, a hynny yn y ddwy ganolfan. Heb weld llofnodion i ddangos bod y staff wedi edrych dros y Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion, ni allem fod yn sicr bod yr arferion gorau diweddaraf yn cael eu dilyn.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn darllen ac yn llofnodi'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion sy'n gysylltiedig â rhoi'r brechlyn er mwyn cynnal arferion diogel ac effeithiol bob amser.

Gwnaethom adolygu'r broses o baratoi'r brechlyn yn y ddwy ganolfan, a oedd yn digwydd ar fyrddau yn y prif ardaloedd brechu. Gwelwyd y gellir olrhain y brechlynnau drwy archwiliad ar adeg eu hailansoddi<sup>1</sup> a nodwyd bod hyn yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd a'r Protocol Cenedlaethol ar gyfer rhoi brechlynnau COVID-19 yn ddiogel.

Gwnaethom hefyd ystyried a oedd cyfleusterau digonol yn y canolfannau i storio a dosbarthu'r brechlynnau. Yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol, gwnaethom nodi bod oergelloedd y gellid eu cloi ym mhob canolfan, ac roeddent yn cael eu harchwilio'n rheolaidd yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

Roedd silindrau ocsigen cludadwy ar gael i'w defnyddio mewn argyfwng meddygol, ac roedd y rhain yn cael eu harchwilio, eu monitro a'u storio'n ddigonol.

Gwelwyd bod adrenalin<sup>2</sup> ar gael yn y ddwy ganolfan hefyd. Fodd bynnag, nid oedd ar gael ym mhob man brechu, nac yn yr ardal aros ar ôl cael brechiad.

---

<sup>1</sup> Ailansoddi: Y broses o ychwanegu gwanedydd at frechlyn i wneud y cynnyrch terfynol.

<sup>2</sup> Meddyginiaeth a ddefnyddir i drin sioc ddifrifol a achosir gan adwaith alergaidd difrifol neu lewygu yw adrenalin.

Dywedodd y staff cofrestredig y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael eu hyfforddi'n briodol i roi adrenalin os oedd angen.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff adrenalin ei storio'n briodol er mwyn sicrhau y gellir ei roi ar unwaith os bydd ei angen mewn argyfwng meddygol.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd y diffibriliwr allanol awtomataidd (AED) a'r holl gyfarpar eraill yn cael eu harchwilio'n wythnosol er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio, a bod y nwyddau traul o fewn y dyddiadau diogel i'w defnyddio pe bai argyfwng. Fodd bynnag, yng nghanolfan yr Halliwell, nid oedd rhestr wirio fanwl ar gyfer y cyfarpar dadebru brys, a oedd yn golygu nad oedd modd cynnal archwiliadau manwl. Gwelsom fod gwahaniaethau yn y cyfarpar brys a oedd ar gael ar y ddau safle. Wrth edrych ar asesiad risg y bwrdd iechyd, gwelsom nad oedd yn nodi rhesymeg fanwl ar gyfer yr eitemau a oedd ar gael, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)<sup>3</sup>.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Mae'r cyfarpar dadebru a brys sydd ar gael ym mhob canolfan yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)
- Mae'r asesiad ris yn nodi rhesymeg fanwl ar gyfer y cyfarpar sydd ar gael.

---

<sup>3</sup> <https://www.resus.org.uk/>

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer gofalu am gleifion pe bai argyfwng fel adwaith anaffylactig<sup>4</sup>. Yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol, dywedodd y staff wrthym pe bai angen cymorth y byddai gweiddi am help yn effeithiol oherwydd natur y ganolfan, a'r ffordd y mae'r ardaloedd agored wedi'u cynllunio. Dywedwyd wrthym fod yr arweinydd tîm yn goruchwyllo'r holl giwbiclau, a gwelsom hyn yn digwydd yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol. Yng Nghanolfan yr Halliwell, roedd prosesau ôl-frechu priodol ar waith a phe bai argyfwng, byddai'r claf yn derbyn gofal yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd a chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU). Fodd bynnag, yng Nghanolfan Aberteifi, gwelsom nad oedd yr ardal aros ôl-frechu yn cael ei goruchwyllo gan y staff. Roedd hyn yn peri risg uniongyrchol pe bai argyfwng meddygol. Cafodd y mater ei unioni ar unwaith ac mae'r manylion i'w gweld yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Ceisiodd ein hadolygwr cymheiriaid clinigol ganiatâd gan rai o'r cleifion a'r staff i arsylwo ar y gofal a roddir i'r cleifion yn y man brechu. Cawsom sicrwydd yn y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw fod y cleifion yn cael asesiadau priodol i sicrhau eu bod yn addas i gael y brechlyn a bod y cleifion yn cael y wybodaeth gywir er mwyn rhoi cydsyniad gwybodus cyn cael eu brechu.

### Cadw cofnodion

Drwy drafodaethau â'r staff a'r uwch-reolwyr, ynghyd ag arsylwadau gan yr adolygwr cymheiriaid clinigol, gwnaethom nodi bod cofnodion yn cael eu cynnal yn electronig ar System Imiwneiddio Cymru yn y ddwy ganolfan. Mae'r system, a ddatblygwyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, yn ei gwneud yn bosibl i'r bwrdd iechyd gael gwybodaeth am nifer y brechiadau a roddwyd er mwyn olrhain cynnydd a monitro faint o gleifion sy'n manteisio arni ar draws rhaglen frechu'r bwrdd iechyd. Gwelsom ryngweithio priodol rhwng y staff a'r cleifion, gan sicrhau cydsyniad llafar cyn rhoi'r brechlyn.

---

<sup>4</sup> Adwaith alergaidd difrifol a all beryglu bywyd yw adwaith anaffylactig. Gall ddigwydd o fewn eiliadau neu funudau o ddod i gyswllt â meddyginiaeth.



## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r canolfannau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.*

Cyn i ni gynnal yr elfen o'n harolygiadau ar y safle, gwnaethom gais am dystiolaeth a gwybodaeth gan y bwrdd iechyd mewn cysylltiad â threfniadau llywodraethu'r rhaglen frechu. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod strwythurau ar waith i oruchwyllo'r ffordd y caiff rhaglen frechu COVID-19 ei chyflawni gan y bwrdd iechyd. Wrth siarad â'r staff yn ystod yr arolygiadau â phwyslais penodol, gwnaethant hefyd gadarnhau eu bod yn ymwybodol o strwythur arwain y bwrdd iechyd. Hefyd, cawsom ddogfennau fel data hyfforddiant, dogfennau'r bwrdd rhaglen a thystiolaeth yn ymwneud â rheoli risgiau a oedd yn cynnig trosolwg o'r gwasanaethau a oedd yn cael eu cynnig cyn yr arolygiadau â phwyslais penodol.

Darparwyd y gweithdrefnau safonol a grëwyd ar gyfer y canolfannau brechu torfol a oedd wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2020. Roeddent yn nodi'r trefniadau lleol a oedd ar waith yn y canolfannau er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar y broses frechu yn cael ei chyflawni'n ddiogel. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol, ni allem fod yn sicr bod y mesurau a oedd ar waith yn y canolfannau yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau safonol. Yn benodol, nodwyd gennym nad oedd y mesurau atal a rheoli heintiau a welwyd yn adlewyrchu'r rhai a nodwyd yn y gweithdrefnau safonol. Gwnaethom drafod hyn ag uwch-aelodau o'r staff, a gadarnhaodd nad oedd y gweithdrefnau safonol yn gywir. Ni allai'r staff a oedd yn gweithio yn y ganolfan ddarparu copi o'r gweithdrefnau safonol ar gyfer eu canolfan chwaith.

Nodwyd gennym hefyd nad oedd gan y staff yn y ddwy ganolfan fynediad llawn at y wybodaeth berthnasol roedd ei hangen arnynt i reoli'r ffordd y caiff y canolfannau eu rhedeg o ddydd i ddydd yn effeithiol, o ran meysydd fel dyrannu staff, nifer y bobl yr oedd disgwyl iddynt gael eu brechu a data ar y bobl na ddaethant i gael eu brechu.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol:

- Darparu sicrwydd bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau safonol perthnasol ar gyfer y canolfannau y maent yn gweithio ynddynt, a'u bod wedi darllen a deall y cynnwys.

- Adolygu'r gweithdrefnau safonol ar gyfer y ddwy ganolfan brechu torfol a sicrhau eu bod yn disgrifio'r prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer y ddwy ganolfan.
- Rhoi mynediad i'r staff yn y canolfannau at y data angenrheidiol, fel data dyrannu staff, nifer y bobl yr oedd disgwyl iddynt gael eu brechu a data ar y bobl na ddaethant i gael eu brechu er mwyn sicrhau y gallant reoli'r ffordd y caiff y canolfannau eu rhedeg o ddydd i ddydd yn effeithiol.

## Staff ac adnoddau

### Y Gweithlu

Roedd yn amlwg y byddai'r broses barhaus o nodi staff a phryd y maent ar gael, a mynediad hirdymor at leoliadau addas, yn heriau allweddol a wynebier gan y bwrdd iechyd wrth gyflawni'r rhaglen frechu. Fodd bynnag, gwelsom fod nifer priodol o wirfoddolwyr, gweinyddwyr a staff clinigol ar y safle yn ystod y ddau arolygiad â phwyslais penodol, er mwyn rhoi'r brechiadau a drefnwyd ar gyfer y diwrnodau hynny.

Dywedwyd wrthym fod y gwaith o drefnu'r rotas staff yn cael ei reoli'n ganolog ar hyn o bryd, a dywedodd y staff wrthym fod hyn i'w weld yn gweithio'n effeithiol.

Dwedwyd wrthym fod staff clinigol cofrestredig yn gyfrifol am oruchwyllo un neu ddau o frechwyr heb eu cofrestru ar y tro. Yn y ddwy ganolfan, nodwyd y manylyn hwn am y drefn oruchwyllo ddyddiol ar y daflen ddyrannu ddyddiol.

Dywedwyd wrthym fod 'sgrymiau diogelwch' byr yn cael eu cynnal bob bore er mwyn i'r uwch-aelodau o staff rannu pwyntiau, materion a chymau gweithredu allweddol â'r staff. Fodd bynnag, dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut y gellir rhoi'r diweddariadau hyn i'r staff sy'n cyrraedd i weithio sifftiau hwyrach i'r un graddau fel bod ganddynt yr un wybodaeth â'r staff eraill.

Rhaid i'r brechwyr newydd fodloni'r gofynion hyfforddiant perthnasol a chael eu hasesu'n gymwys gan oruchwylwyr penodol cyn gallu brechu heb oruchwyliaeth. Rhaid i staff sydd eisoes â sgiliau brechu gwblhau'r un hyfforddiant gofynnol ond gallant ddefnyddio adnodd asesu cymhwysedd brechwyr COVID-19 i hunanasesu a nodi unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff clinigol yn cael pecyn sefydlu cyn dechrau yn eu rôl.

Yn ystod yr arolygiadau â phwyslais penodol, gofynnwyd i'r bwrdd iechyd ddosbarthu holiadur staff i bob aelod o'r staff a oedd yn gweithio yn y ddwy ganolfan y gwnaethom ymweld â nhw. Daeth 33 o holiaduron wedi'u cwblhau i law, ac roedd y canfyddiadau'n gadarnhaol iawn. Dywedodd pob un ond dau o'r staff eu bod wedi cael hyfforddiant digonol i gyflawni eu rolau. Fodd bynnag, dywedodd hanner y staff clinigol na chafodd eu cymwyseddau eu cymeradwyo cyn dechrau yn eu rolau.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Caiff sgrymiau diogelwch eu hadolygu er mwyn sicrhau y caiff y staff wybodaeth briodol drwy gydol eu diwrnod gwaith
- Bydd yr holl staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol a phob cymhwysedd cyn dechrau yn eu rôl Dylid cyflwyno trefniadau i fonitro hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

Yn y ddwy ganolfan, dywedodd y staff wrthym nad oedd unrhyw gyfleusterau newid ar gael, a olygai fod y staff yn cyrraedd ac yn gadael yn eu gwisgoedd. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y trefniadau sydd ar waith ym mhob canolfan brechu torfol er mwyn sicrhau bod cyfleusterau newid addas a diogel ar gael i'r staff. Gwelsom hefyd ardaloedd egwyl a lluniaeth addas lle gallai'r staff gymryd egwyliau yn ystod eu sifft.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd yr holiadur staff fod llesiant a diogelwch yn y timau yn gadarnhaol iawn, a bod y bwrdd iechyd yn blaenoriaethu iechyd y staff.

#### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau newid addas a diogel ar gael i'r staff ym mhob un o'r canolfannau brechu torfol.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiadau â phwyslais penodol y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiadau â phwyslais penodol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws canolfannau brechu eraill yn y bwrdd iechyd. Mae hyn yn cynnwys y canfyddiadau yn atodiadau A, B ac C.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu canolfannau brechu torfol

Byddwn fel arfer yn rhoi rhywfaint o rybudd o'n harolygon â phwyslais penodol o ganolfannau brechu torfol. Mae hyn yn golygu y byddwn yn dweud wrth y bwrdd iechyd y byddwn yn ymweld â nifer o ganolfannau yn ystod cyfnod penodol o amser, ond ni fyddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth. Yna gall y bwrdd iechyd baratoi rhywfaint o'r wybodaeth sydd ei hangen arnom ymlaen llaw. Mae hyn yn golygu y gallwn dreulio llai o amser ar y safle, ac felly bydd yr arolygiad â phwyslais penodol yn amharu cyn lleied â phosibl ar y cleifion a'r staff.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad â phwyslais penodol, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae'r canolfannau'n cyrraedd rhannau perthnasol o [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn â phwyslais penodol yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal mewn canolfannau brechu torfol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd                                                                                                                                                                               | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion                                                                                                                                                                                             | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC                                                                         | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys                                                                                                                                                                                                                                        |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Yng nghanolfan Aberteifi, gwelwyd cleifion a oedd wedi cael brechlyn Pfizer BioNTech yn eistedd am 15 munud ar ôl y brechiad mewn ardal aros nad oedd wedi'i goruchwyllo na'i monitro'n briodol gan y staff. | Gofynnir i gleifion aros am 15 munud ar ôl cael brechiad er mwyn eu monitro rhag ofn y byddant yn datblygu unrhyw sgil-ffeithiau. Fodd bynnag, roedd y cleifion yn wynebu risg pe bai argyfwng meddygol na fyddai neb yn ymateb iddo ar unwaith. | Cafodd hyn ei uwchgyfeirio at arweinydd y ganolfan brechu torfol ar unwaith yn ystod yr arolygiad â phwyslais penodol. | Cafodd bwrdd ac un aelod o staff eu rhoi yn yr ardal aros ar unwaith i fonitro'r cleifion yn ystod y cyfnod arsylwi 15 munud ar ôl iddynt gael brechiad. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r ganolfan yn sicrhau bod yr ardal hon yn cael ei monitro drwy gydol pob sifft. |

## Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

### Canolfannau: Canolfannau Brechu Torfol Canolfan yr Halliwell a Chanolfan Hamdden Aberteifi

**Dyddiad arolygu: 08 – 09 Mawrth 2021**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                   | Rheoliad/<br>Safon                                     | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | Swyddog<br>cyfrifol    | Amserlen               |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------|------------------------|
| <b>Rhoi gofal diogel ac effeithiol</b>                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                                                        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                        |                        |
| Dywedwyd wrthym nad oedd gweithgareddau archwilio yn cael eu cynnal yn yr un o'r ddau safle a arolygwyd gennym. Roedd hyn yn cynnwys archwiliadau clinigol fel atal a rheoli heintiau a hylendid dwylo, ac archwiliadau amgylcheddol. Mae'r rhain yn rhan hanfodol o'r trefniadau llywodraethu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau gofynnol a chadw'r cleifion yn ddiogel.<br><br><b>Camau Gweithredu:</b> | Safon Iechyd a<br>Gofal 2.1 / 2.4 /<br>3.1 / 3.3 / 3.5 | Cwblhawyd archwiliadau o'r holl ganolfannau brechu torfol gan ddefnyddio'r adnodd a luniwyd ar gyfer yr ardal ac a rannwyd ag AGIC fel rhan o'r dystiolaeth hunanasesu. Fel yr eglurwyd yn ystod yr ymweliad, bydd hyn yn rhan o'r rhaglen archwilio dreigl ar gyfer pob canolfan, a reolir gan Gydgyssylltydd y Ganolfan a'r Arweinwyr Sirol. | Arweinydd y<br>Rhaglen | Cwblhawyd<br>12.3.2021 |



| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  | Rheoliad/<br>Safon          | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Swyddog<br>cyfrifol                                   | Amserlen                                              |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|
| Rhoi rhaglen o archwiliadau ar waith ym mhob canolfan brechu torfol yn y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn briodol, a bod gofal iechyd yn cael ei ddarparu yn unol â safonau a chanllawiau arfer orau.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |                             | Rhaglen archwilio i'w datblygu a fydd yn cynnwys pob canolfan a ddefnyddir fel Canolfannau Brechu Torfol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |                                                       |                                                       |
| <p>Gwnaethom ystyried y trefniadau a oedd ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff yn y ddwy ganolfan. Gwelsom ddrysau tân mewnlol yn y ddwy ganolfan yn cael eu cadw ar agor. Nid oedd hyn yn cyd-fynd â chanllawiau diogelwch tân arferol sy'n nodi na ellir cadw drysau ar agor oni bai y defnyddir dyfais ddal sy'n rhyddhau'n awtomatig a ddylunir ac a osodir yn benodol i gau'r drysau pe bai tân. Ni allai'r naill ganolfan na'r llall ddarparu tystiolaeth o asesiadau risg tân pan ofynnwyd amdanynt ychwaith.</p> <p>Yn ystod ein trafodaethau â'r staff yn y ddwy gnolfan, gwanethom nodi nad oedd rhai o'r staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau a oedd</p> | Safon Iechyd a<br>Gofal 2.1 | <p>Y Swyddog Tân priodol i ailadolygu pob safle a chanlyniad yr adolygiad i gael ei ddefnyddio i lywio'r dull gweithredu ym mhob canolfan.</p> <p>Asesiadau risg tân i gael eu hadolygu a chynlluniau gwacáu i'w rhoi ar waith ar gyfer pob adeilad.</p> <p>Seiniodd larwm yng Nghanolfan yr Halliwell ar 10 Mawrth a bu'n rhaid gwacáu'r ganolfan gyfan. Seiniodd y larwm cyn i'r sesiwn glinigol ddechrau, heb unrhyw faterion nac eithriadau wedi'u nodi o'r polisi gwacáu lleol.</p> | <p>Arweinydd y Rhaglen</p> <p>Arweinydd y Rhaglen</p> | <p>Cwblhawyd 15.3.2021</p> <p>Cwblhawyd 15.3.2021</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Rheoliad/<br>Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                            | Swyddog<br>cyfrifol                                   | Amserlen                                                      |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------|
| <p>ar waith i wacáu'r safle'n ddiogel. Nodwyd gennym hefyd nad oedd cynlluniau gwacáu ar waith yn y naill ganolfan na'r llall.</p> <p>Ni allem felly fod yn sicr y byddai'r cleifion a'r staff yn ddiogel pe bai argyfwng yn y naill ganolfan neu'r llall.</p> <p><b>Camau Gweithredu i'w Cymryd:</b></p> <p>Darparu tystiolaeth i AGIC fod adolygiad a diweddariad uniongyrchol wedi'i gwblhau ar gyfer pob canolfan brechu torfol yn y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod pob person yn yr adeilad yn cael ei ddiogelu ac y dilynir canllawiau cenedlaethol.</p> <p><b>Darparu tystiolaeth i AGIC fod ymwybyddiaeth y staff o'r gweithdrefnau priodol i'w dilyn pe bai argyfwng yn cael ei monitro'n barhaus.</b></p> |                    | <p>Dylai'r cydgysylltwyr ym mhob canolfan brechu torfol gyfeirio at iechyd a diogelwch yn ystod y sgrym diogelwch dyddiol er mwyn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r trefniadau.</p> <p>Dylid rhoi gwybod i'r cydgysylltwyr ym mhob canolfan brechu torfol fod yn rhaid llofnodi a dyddio copïau o'r sgrymiau diogelwch dyddiol, a dylai arweinwyr y canolfannau brechu torfol eu cadw'n lleol ym mhob canolfan.</p> | <p>Arweinydd y Rhaglen</p> <p>Arweinydd y Rhaglen</p> | <p>Cwblhawyd<br/>15.3.2021</p> <p>Cwblhawyd<br/>16.3.2021</p> |

## Cynrychiolydd y Gwasanaeth/Bwrdd Iechyd:

**Enw**  
**(priflythrennau):**

**Bethan Lewis**

**Rôl:**

**Arweinydd Nyrsio, Ansawdd a  
Phrofiad Cleifion - Trawsnewid**

**Dyddiad:**

**16 Mawrth 2021**

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Canolfannau: Canolfannau Brechu Torfol Canolfan yr Halliwell a Chanolfan Hamdden Aberteifi

Dyddiad arolygu: 08 – 09 Mawrth 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Ansawdd profiad y claf                                                                                                                    |                           |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                    |           |
|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|-----------|
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o bwy sy'n bresennol ar adeg cael y brechiad a gofyn am eu cydsyniad i barhau. | 4.1 Gofal ag Urddas       | Caiff pob claf ei gyflwyno i'r aelodau o staff yn yr ardal glinigol, gan gynnwys rhoi gwybod beth yw rôl y staff. Dylid ceisio cydsyniad y claf i barhau â'r brechiad gyda'r staff hynny yn bresennol. Mae'r canolfannau brechu torfol wrthi'n adolygu'r system bresennol o gofnodi data brechu a byddant yn ceisio symud i system ddibapur a fydd yn lleihau'r nifer cyffredinol o staff yn yr ardal glinigol uniongyrchol. | Arweinydd Clinigol | Cwblhawyd |
| Os nad yw'r claf yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried a                                         | 4.2 Gwybodaeth i Gleifion | Mae gwybodaeth am y brechlyn ar gael yn newis iaith y claf yn ystod y clinig ar                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              | Arweinydd Clinigol | Cwblhawyd |

|                                                                  |  |                                                                                           |  |  |
|------------------------------------------------------------------|--|-------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|
| oes gwybodaeth ar gael yn newis iaith y claf os gofynnir amdani. |  | wefan PHE a defnyddiwyd hyn yn llwyddiannus mewn dwy ganolfan brechu torfol yn ddiweddar. |  |  |
|------------------------------------------------------------------|--|-------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

|                                                                                                                                                                      |                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                  |           |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------|-----------|
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cleifion eu hasesu am arwyddion neu symptomau COVID-19 er mwyn lleihau'r risg o'i drosglwyddo.                                | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | <p>Mae'r holl ohebiaeth a'r wybodaeth ar y wefan yn lleol ac yn genedlaethol yn nodi'n glir na ddylai pobl ddod i gael eu brechlyn os oes ganddynt unrhyw arwyddion neu symptomau COVID-19. Caff hyn ei ategu hefyd yn y llythyrau gwahodd.</p> <p>Bydd pob canolfan brechu torfol yn adolygu'r defnydd o bosteri wrth fynedfa eu hadeiladau er mwyn rhoi gwybod i'r cleifion na ddylent ddod i mewn i'r safle os oes ganddynt unrhyw arwyddion neu symptomau COVID-19.</p> | Arweinydd Clinigol               | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau hylendid dwylo yn cael eu hadolygu yn y ddwy ganolfan er mwyn sicrhau bod mesurau hylendid dwylo effeithiol ar gael. | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | Caiff pob cyfleuster a gaiff ei ystyried i'w ddefnyddio fel canolfan brechu torfol ei asesu o ran mynediad at gyfleusterau golchi dwylo ac yn unol â chynghor ein Tîm Atal a Rheoli Heintiau. Mae pob un o'n 7 canolfan brechu torfol wedi cael eu hasesu a nodwyd bod pob un ohonynt yn lleoliadau addas o ran y cyfleusterau golchi dwylo a ddarperir.                                                                                                                    | Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau | Cwblhawyd |

|                                                                                                                                                          |                                       |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |                    |           |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|-----------|
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn cael eu hatgoffa o'r polisi gwisg a bod cydymffurfiaeth yn cael ei monitro drwy archwiliadau rheolaidd.    | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | <p>Mae pob aelod o'r staff sy'n gweithio mewn canolfan brechu torfol yn cael gwybod am y polisi gwisg yn ystod y broses recriwtio. Mae gwaith monitro ar waith drwy archwiliadau.</p> <p>Pan fydd yr amodau yn y ganolfan brechu torfol, er enghraifft y cyfleuster profi drwy ffenest y car, yn golygu bod angen dillad ychwanegol ar y staff er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio mewn amodau cyfforddus, cynhelir asesiad risg mewn perthynas â chynnal y polisi gwisg a'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau</p> | Arweinydd Clinigol | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y broses o lanhau cadeiriau yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau y cedwir at fesurau atal a rheoli heintiau bob amser. | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi | Cwblhawyd yr adolygiad o'r weithdrefn glanhau cadeiriau ac mae gwaith monitro ar waith drwy ddefnyddio staff y clinig i arsylwi ar ardaloedd ac atgoffa'r cleifion i ddefnyddio'r cyfarpar glanhau sydd ar gael a chefnogi'r broses lanhau lle y bo angen. Archwiliad ar waith er mwyn sicrhau bod safonau glanhau amgylcheddol yn cael eu cynnal.                                                                                                                                                                   | Arweinydd Clinigol | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff yn darllen ac yn llofnodi'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion sy'n                | 2.6 Rheoli Meddyginiaethau            | Mae pob canolfan brechu torfol wedi adolygu ei Chyfarwyddyd Grŵp Cleifion er mwyn sicrhau bod ganddi'r fersiwn ddiweddaraf a bod pob aelod o'r staff                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | Arweinydd Clinigol | Cwblhawyd |

|                                                                                                                                                                 |                                   |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |                                                                   |                  |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------|------------------|
| <p>gysylltiedig â rhoi'r brechlyn er mwyn cynnal arferion diogel ac effeithiol bob amser.</p>                                                                   |                                   | <p>wedi llofnodi copi ohono ar bob safle lle maent yn gweithio, ni waeth a ydynt wedi ei lofnodi mewn canolfan brechu torfol arall. Cedwir copi o'r holl lofnodwyr ar bob safle. Caiff y broses ei hailadrodd bob tro y caiff fersiwn newydd o'r Cyfarwyddyd Grŵp Cleifion ei chyhoeddi. Mae proses debyg ar waith ar gyfer y Protocol Cenedlaethol ar gyfer pob brechlyn. Yn ogystal, mae archwiliad misol wedi'i roi ar waith er mwyn darparu sicrwydd llawn.</p>                                                                                                                                                  |                                                                   |                  |
| <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff adrenalin ei storio'n briodol er mwyn sicrhau y gellir ei roi ar unwaith os bydd ei angen mewn argyfwng meddygol.</p> | <p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p> | <p>Mae adrenalin ar gael ym mhob canolfan brechu torfol i'w roi ar unwaith os bydd ei angen. Mae wedi'i leoli yn y pecyn at ddefnydd mewn argyfwng mewn man penodol ym mhob canolfan brechu torfol. Bob tro y bydd staff yn dechrau sifft, cynhelir 'Sgrym Diogelwch Cleifion' a fydd yn nodi materion brys fel allanfeydd tân, silindrau tân, pecyn argyfwng ar gyfer dadebru a/neu anaffylacsis. Mae'n ofynnol i'r staff lofnodi eu bod yn deall ac yn gwybod ymhle y mae'r eitemau hyn. Ystyriwyd a ddylid lleoli'r adrenalin ym mhob ciwbicl ond oherwydd y risg o olrhain ampylau unigol, achosion posibl o</p> | <p>Cyfarwyddwr Clinigol Fferylliaeth a Rheoli Meddyginiaethau</p> | <p>Cwblhawyd</p> |



|                                                                                                                                                    |                                                                                                      |                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |                                          |           |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------|-----------|
|                                                                                                                                                    |                                                                                                      | ddwyn a/neu ddifrodi, mae'n well ei gadw mewn un lleoliad. Mae'r defnydd o sgriniau wrthi'n cael ei adolygu, a bydd cael gwared arnynt (i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd dros dro, e.e. adwaith) yn gwella gwelededd drwy'r ganolfan brechu torfol, gan leihau'r risg bosibl o niwed i gleifion. |                                          |           |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cyfarpar dadebru a'r cyfarpar brys sydd ar gael ym mhob canolfan yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU). | 2.9 Dyfeisiau ac Offer Meddygol a Systemau Diagnostig<br><br>3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol | Yn unol â datganiad y Cyngor Dadebru ym mis Ionawr 2021 'Additional information for the treatment of anaphylaxis following vaccination'<br>Mae'r sgiliau a'r cyfarpar a argymhellir ar gael ar bob safle.<br><br>Bydd hyn yn destun adolygiadau rheolaidd gan Bwyllgor Dadebru'r Bwrdd Iechyd   | Pennaeth Efelychiadau a Sgiliau Clinigol | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr asesiad risg yn nodi'r rhesymeg ar gyfer y cyfarpar a ddarperir                                              | 2.9 Dyfeisiau ac Offer Meddygol a Systemau Diagnostig<br><br>3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol | Cwblhawyd yr asesiad risg a chaiff ei adolygu yng nghyfarfod nesaf Grŵp Dadebru'r Bwrdd Iechyd                                                                                                                                                                                                  | Pennaeth Efelychiadau a Sgiliau Clinigol | Cwblhawyd |

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

|                                                                                                                                                                                                                                                                                                            |                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |                                               |           |
|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------|-----------|
| Rhaid i'r bwrdd iechyd roi sicrwydd bod y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau safonol ar gyfer y canolfannau y maent yn gweithio ynddynt, a'u bod wedi deall a darllen y cynnwys.                                                                                                                         | Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | Mae gan bob canolfan brechu torfol becynnau gweithdrefn safonol ar gyfer paratoi, cyflenwi a gwaredu'r brechlyn yn ddiogel. Mae arweinydd Fferylliaeth ar gyfer pob canolfan sy'n gyfrifol am sicrhau bod y copi diweddaraf o'r gweithdrefnau ar gael i'r staff ac am gefnogi'r Cydgysylltydd Clinigol Band 6 i ddiweddarau'r staff a sicrhau eu bod yn eu deall | Arweinydd Clinigol                            | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gweithdrefnau safonol ar gyfer y ddwy ganolfan brechu torfol a sicrhau eu bod yn disgrifio'r prosesau y cytunwyd arnynt ar gyfer y ddwy ganolfan yn gywir.                                                                                                                | Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd | Yn ogystal â'r pecynnau Gweithdrefn Safonol sydd ar gael ym mhob canolfan brechu torfol, mae gan y Bwrdd Iechyd Weithdrefn Safonol gyffredinol ar gyfer brechu sydd wrthi'n cael ei hadolygu a chaiff diweddariadau iddi eu hawdurdodi gan y Grŵp Brechu Efydd                                                                                                   | Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Dros Dro | Mai 2021  |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y data gofynnol ar gael i'r canolfannau, megis data dyrannu staff, y niferoedd y disgwylir iddynt gael eu brechu, a data ar y bobl na ddaethant i gael eu brechu ('Did Not Attend') er mwyn sicrhau eu bod yn gallu rheoli'r canolfannau o ddydd i ddydd yn effeithiol. | Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | Mae'r rota staff a gwybodaeth am ddyrannu staff ar gael yn lleol ym mhob canolfan brechu torfol a chânt eu rhannu â'r timau bob dydd.<br><br>Gall pob canolfan lunio ei rhestrau clinig ei hun ar gyfer pob diwrnod brechu. Mae'r rhestrau'n gyfredol ar gyfer y bore hwnnw a byddant ond yn nodi'r rhai sydd ag apwyntiad. Caiff data ar y rhai na              | Arweinydd Clinigol                            | Cwblhawyd |

|                                                                                                                                                                                                                            |                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       |                    |           |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|-----------|
|                                                                                                                                                                                                                            |                                             | ddaethant i gael eu brechu eu rheoli'n lleol gan bob canolfan brechu torfol, a hynny'n unol â'r gyfarwydddeb genedlaethol ar gyfer rheoli'r rhai nad ydynt yn dod, gan ategu ethos y rhaglen o beidio â hepgor unrhyw un.                                                                                                                                                                                                                                             |                    |           |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod sgrymiau diogelwch yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y staff yn cael gwybodaeth briodol drwy gydol eu diwrnod gwaith.                                                             | Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | Mae'r sgrymiau diogelwch yn rhan greiddiol o ddiwrnod gwaith y ganolfan brechu torfol a chânt eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y staff yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu'n ddigonol a'u bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen ac anghenion lleol.                                                                                                                                                                                                         | Arweinwyr Clinigol | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gofynnol a phob cymhwysedd cyn dechrau yn eu rôl. Dylid cyflwyno trefniadau i fonitro hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus. | 7.1 Y Gweithlu                              | Mae pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant llawn cyn dechrau ar eu 'sifft cysgodi' cyntaf er mwyn eu cyflwyno i'r ganolfan brechu torfol. Bydd y Tîm Datblygu Staff y Gweithlu yn eu monitro hefyd. Ar ôl cytuno ar y dyddiad dechrau, bydd brechwyr newydd yn gweithio dan oruchwyliaeth er mwyn cymeradwyo eu cymhwysedd gan ddefnyddio'r adnodd asesu cymhwysedd. Mae'r Arweinydd Clinigol Band 6 ar gyfer pob canolfan brechu torfol a'r Arweinydd Sirol Band 7 | Arweinydd Clinigol | Cwblhawyd |

|                                                                                                                                  |                |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |                    |           |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------|-----------|
|                                                                                                                                  |                | yn monitro cydymffurfiaeth leol â'r broses gydymffurfio.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |                    |           |
| Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfleusterau newid addas a diogel ar gael i'r staff ym mhob un o'r canolfannau brechu torfol. | 7.1 Y Gweithlu | Caiff pob adeilad yr ystyrir ei ddefnyddio fel canolfan brechu torfol ei asesu er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau'n hyrwyddo llesiant y staff ac yn cynnig cyfle iddynt orffwys. Lle y bo'n bosibl, ystyrir cyfleusterau newid diogel ychwanegol ond ni fydd hyn bob amser yn bosibl oherwydd lleoliad a maint y safleoedd. Yn yr achosion hyn, nodir ardaloedd llai sy'n addas ar gyfer staff sydd am newid pan fyddant yn cyrraedd neu ar ddiwedd eu sifft a chânt eu rheoli'n lleol gan yr Arweinydd Clinigol Band 6 a phob aelod o'r tîm | Arweinydd Clinigol | Cwblhawyd |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):** Bethan Lewis

**Teitl swydd:** Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd Dros Dro

**Dyddiad:** 26.03.2021